




# Strategaeth Gofal yn y Cartref 2010 - 2015

**BWRDD PROSIECT GOFAL YN Y CARTREF**

Strategaeth V0.3.3 Ebrill 2011

## Bwrdeistref Sirol Wrexham



Gellir disgrifio Gofal yn y Cartref fel “amrywiaeth o dasgau ymarferol a phersonol a ddarperir i bobl agored i niwed mewn lleoliad yn y gymuned yn hytrach na mewn lleoliad gofal sefydliadol, i'w galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartref.”

## CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Phwrpas	4
2. Yr Angen, y galw a phwy sy'n gymwys i gael Gofal yn y Cartref	6
3. Mapio'r Gwasanaeth a'r Farchnad	8
4. Casgliadau o'r dadansoddiad	9
5. Model Gwasanaeth yn y dyfodol	10
6. Blaenoriaethau a Chynllun Gweithredu	11

Atodiadau

## 1 CYFLWYNIAD A PHWRPAS

Mae'r strategaeth hon yn nodi siâp a chyfeiriad gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am y pum mlynedd nesaf.

Mae'n nodi'r hyn sy'n ofynnol o ran gwasanaethau gofal yn y cartref i unigolion, a sut y bwriedir datblygu'r gwasanaethau er mwyn iddynt fod yn addas i'r dyfodol.

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu eisoes wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu gwasanaethau, a bydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i weithio â'n partneriaid yn y sector lechyd i sicrhau gwasanaethau priodol a gwell i fodloni anghenion amrywiol dinasyddion Wrecsam.

Mae gofal yn y cartref yn ei ystyr ehangaf yn meddu ar botensial enfawr, gyda'n partneriaid, i gyflawni'r isod:

- Hyrwyddo a chynorthwyo ailalluogi
  - Er mwyn oedi neu atal mynd i ofal preswyl
  - Er mwyn oedi neu leihau'r galw ar yr economi iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynorthwyo i gynnal annibyniaeth i'r eithaf
- Darparu rhybudd cynnar am ddirywiad a allai ymateb i ymyrraeth buan
- Ymateb i unrhyw argyfwng ar fyrder
- Atal derbyn i'r ysbyty trwy ddarparu gofal a chymorth dwys tymor byr
- Hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynharach
- Gwella ansawdd bywyd trwy:
  - gefnogi cynnal iechyd
    - ~ sicrhau cael digon o faeth a hylifau
    - ~ hyrwyddo a chefnogi ymarfer corff priodol
  - cefnogi parhau i gymryd rhan ym mywyd y teulu a bywyd y gymuned
  - cefnogi cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon fel
    - ~ gwaith cyflogedig
    - ~ gwaith gwirfoddol
    - ~ diddordebau hamdden
  - cynorthwyo i sicrhau bod eu hamgylchedd yn foddhaol
    - ~ bod y cartref yn lân ac yn gyffyrddus
    - ~ ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda

Bwriedir i'r strategaeth hon roi cyfeiriad clir a phenodol i ddarparwyr mewnol ac annibynnol hefyd ynghylch siâp gwasanaethau gofal yn y cartref yn y dyfodol.

Fe'i seilir ar:

- Y gwerthoedd, y weledigaeth a'r datganiadau a wnaed yng nghynlluniau a strategaethau Wrecsam a mynd â'r datganiadau hynny i gam gweithredu
- Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Dadansoddiadau anghenion a'r galw
- Mapio'r farchnad
- Meincnodi perfformiad ac ariannol a sicrhau gwerth am arian
- Ymwybyddiaeth o'r hyn mae awdurdodau eraill wedi ei gyflwyno neu ar fin ei gyflwyno
- Blaenoriaethau Wrecsam

Fe'i lluniwyd trwy drafodaethau a gwaith gan y Tîm Prosiect Gofal yn y Cartref a oedd yn cynnwys swyddogion o Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Fe'i cyflwynir yma er mwyn galluogi'r logisteg o ad-drefnu'r ddarpariaeth a rheoli'r pwysau ariannol a demograffig cynyddol, ac i ysgogi trafodaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid trwy hybu deialog barhaus â defnyddwyr gwasanaeth unigol, gofalwyr, grwpiau a'u cynrychiolwyr i gefnogi cyflwyno gwasanaethau blaenoriaeth yn y tymor hirach.

## 2 YR ANGEN, Y GALW A PHWY SY’N GYMWYS I GAEL GOFAL YN Y CARTREF

### 2.1 Yr angen

Mae dau brif ffactor sy’n effeithio ar faint o ofal yn y cartref sy’n ofynnol: yr angen a’r galw. Mae’r angen yn ymwneud â ffactorau ym mhoblogaeth Wrecsam sy’n dynodi bod gofyn cynhenid am y gwasanaethau.

Amcangyfrifwyd bod bwrdeistref sirol Wrecsam yn 135,100 yn 2011. Mae hyn wedi cynyddu o 128,476 yn 2001<sup>1</sup>.

Awgryma amcanestyniadau gan Grŵp Ymchwil Poblogaeth a Thai Gogledd Cymru y bydd poblogaeth y fwrdeistref sirol yn cynyddu 9.1% rhwng 2003 a 2018. Mae’r amcanestyniadau hefyd yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn heneiddio ymhellach. Disgwylir y cynnydd mwyaf yn nifer y dynion 65+ oed (cynnydd o 46.0% yn ystod 2003-18), gyda chynnydd o 12% neu ragor yn nifer y dynion a merched 45-64 oed a merched 65+ oed.

Y grŵp mwyaf o bobl fydd angen gwasanaethau gofal yn y cartref ydy pobl hŷn; fodd bynnag, mae ystod o grwpiau iau angen cymorth oherwydd anghenion iechyd meddwl neu gorfforol neu allu. Mae’r lefel uchel o waeledd iechyd cyfyngus tymor hir a’r cynnydd yn nifer y bobl hŷn a’r bobl hŷn iawn yn parhau i gynyddu’r galw am ofal yn y cartref yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Dengys amcanestyniadau’r galw gan bobl hŷn yng Nghymru hyd at 2030 fesul awdurdod lleol (Medi 2005, London School of Economics), tra disgwylir i niferoedd y bobl hŷn gynyddu’n sylweddol iawn, yn enwedig rhwng 2020 a 2031, ([Gweler atodiad 1](#)) i ba raddau y bydd y bobl hŷn hyn yn ddibynnol fydd yn penderfynu ar anghenion yn y dyfodol. Bydd gwasanaethau fel ailalluogi, sy’n galluogi pobl i adfer eu hannibyniaeth gynted ag y bo modd, yn hynod o bwysig.

Disgrifiodd 11.25% o’r holl bobl yn Wrecsam bod eu iechyd yn “wael”, sy’n is na chyfartaledd Cymru o 12.45%. Ond dydy ffigur Wrecsam ddim yn cymharu’n ffafriol â Lloegr, lle’r oedd 9.03% o’r boblogaeth yn dynodi nad oedd eu hiechyd yn dda iawn.

Mae gan Wrecsam ganran uwch o’i phoblogaeth (21.4%) yn honni eu bod yn dioddef salwch cyfyngu tymor hir nag yn 1991 (15.6%). Os ydy’r tueddiad hwn yn parhau byddai’r ganran yn cynyddu i 27.2% yng nghyfrifiad 2011.

Ym mis Mai 2006 roedd 6.4% (8,400) o drigolion Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn hawlio Lwfans Byw i’r Anabl. Y cyfraddau cyfatebol yng Nghymru a Phrydain Fawr oedd 7.5% a 4.7% yn ôl eu trefn.

---

<sup>1</sup> Ffynhonnell: Poblogaeth – Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2001

## 2.2 Y Galw

Y galw ydy i ba raddau y gofynnir am wasanaethau. Mae'r ffactorau isod yn effeithio ar y galw:

- Lefel yr angen yn y boblogaeth
- I ba raddau yr ystyrir gofal yn y cartref fel y gwasanaeth mae pobl yn ei ddewis a faint o fuddsoddiad a wneir mewn gofal yn y cartref yn hytrach na dewisiadau gofal sefydliadol
- Pa mor barod ydy pobl i dalu am wasanaethau trwy gyfrwng trethi a budd-daliadau
- Pa mor barod ac a oes ganddyn nhw'r modd i dalu am eu gofal eu hunain fel unigolion. Bydd lefelau cyfoeth ac amddifadedd yn y fwrdeistref yn effeithio ar hyn.
- Mae amrywiadau mewn iechyd a lles ar draws y fwrdeistref yn tueddu bod â chysylltiadu clir ag amddifadedd.

Rhagwelir bod y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn debygol o gynyddu tua 10% rhwng 2001 a 2010, a 10-15% eto rhwng 2010 a 2020 (Papur Trafod 2253 yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU)). Er mwyn parhau i gynnal yr un lefel gwasanaeth erbyn 2020 byddai angen i gyllidebau Gofal Cymdeithasol gynyddu o rhyw 24%.

Bu cynnydd yn y lefel gofal yn y cartref yn y fwrdeistref sirol a bydd hyn yn parhau i dyfu. Gwelir y dystiolaeth yn nhw'r angen a'r lefelau dibyniaeth a pholisi'r Cyngor a gefnogir gan ddewisiadau unigolion ynghylch gwasanaethau yn y cartref yn hytrach na derbyn gwasanaethau mewn sefydliadau. Bydd angen rheoli'r twf hwn, un ai trwy atal yr angen trwy gyfrwng ailalluogi, neu trwy leihau'r galw trwy newid y meini prawf pwy sy'n gymwys i gael y gwasanaethau.

## 2.4 Tueddiadau yn y ddarpariaeth

Tabl yn dangos y costau crynswth / nifer y cleientiaid a chyfanswm yr oriau yn ystod wythnos sampl dros gyfnod o dair blynedd.

Blwyddyn	Costau crynswth	Nifer y cleientiaid	Cyfanswm yr oriau yn yr wythnos sampl
22/2/2008	124,301.78	amherthnasol	7588.50
20/2/2009	134,306.60	786	7569.50
22/2/2010	129,658.35	757	7337.75

Lleihaodd y galw yn y drydedd flwyddyn yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Ailalluogi, gyda 48% o'r bobl y cynigiwyd y gwasanaeth hwnnw iddynt ddim angen gofal parhaus.

### **3 MAPIO'R GWASANAETH**

#### **3.1 Y Trefniadau'n sy'n bodoli yn awr (Gweler atodiad 3 am wybodaeth hanesyddol)**

Gofal yn y cartref gan yr Awdurdod Lleol = 1612 o oriau ar gost o £54,313 yr wythnos. Cyfradd yr awr, heb gynnwys hawlio costau corfforaethol yn ôl = £25.06

Gofal yn y cartref gan y sector annibynnol = 6150 o oriau ar gost o £90,000 yr wythnos. Cyfradd yr awr, heb gynnwys hawlio costau corfforaethol yn ôl, yn amrywio o £11.63 i £21.29.

Cynhaliwyd trafodaethau â'r sector annibynnol ar lefel gyffredinol, a dangosodd dyfarnu contract ar hap yn ddiweddar bod capasiti yn y sector annibynnol i gymryd oriau ychwanegol ar gyfradd â'r lefel uchafswm wedi'i sefydlogi. Mae'n bwysig gwneud penderfyniad ar ddyfodol y gwasanaeth gofal yn y cartref yn gymharol gyflym i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn medru manteisio ar y capasiti dros ben yn y farchnad a ystyrir yn angenrheidiol ac yn briodol.

#### **3.2 Gwerth am arian**

Gwerth am arian yn ei hanfod ydy sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng cost ac ansawdd. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth gywir ac amserol er mwyn dyfarnu ar hyn. Bydd Wreccsam yn llunio manyleb yr wybodaeth sy'n ofynnol o ran costau ac ansawdd ac yn cyflwyno'r rhain yn fewnol ac ar gyfer trefniadau cytundebol. Mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am systemau monitro electronig (sy'n cefnogi diogelwch y staff a defnyddwyr y gwasanaeth hefyd) ac a fydd yn hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch comisiynu a rheoli gwasanaethau gofal gyda'r defnyddwyr gwasanaeth.

Gall trefniadau contract wneud cyfraniad allweddol i werth am arian o ran costau ac ansawdd. Mae contractau lleol tymor hir ar bris sefydlog yn rhoi'r sefydlogrwydd i'r darparwyr recriwtio a hyfforddi a datblygu'r gweithlu a rheoli ansawdd y gwasanaeth a'u cyllid. Gall contractau bloc gyflawni hyn hefyd, ond gallai hyn arwain at ddiffyg hyblygrwydd i'r comisiynwyr. Gall contractau ar hap roi gwasanaethau wedi eu teilwra'n bersonol ond byddai swm mawr o gontractau ar hap yn debygol o olygu colli'r nodwedd yma a gallent fod yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl i'w monitro.

Mae Adran Contractau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Wreccsam yn bwriadu cynnal proses dendro i gefnogir darpariaeth gofal wedi ei seilio ar bum ardal, gyda chymysgedd o ddarparwyr lleol a chenedlaethol yn gweithredu ymhob ardal ar draws y fwrdeistref.

Bydd Wreccsam yn ceisio sicrhau gwerth am arian trwy gynyddu cyfradd darpariaeth gwasanaethau yn effeithiol ar sail contractau lleol a defnyddio rhestrau darparwyr cymeradwy i greu economi gofal gymysg a all ymateb yn hyblyg i anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

## 4 CASGLIADAU O'R DADANSODDIAD

### Tueddiadau a phroblemau gofal yn y cartref

Yr angen	Mae'r angen am wasanaethau wedi cynyddu, a bydd yn parhau i gynyddu oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio a nifer y bobl ag anableddau. Mae hyn yn cynrychioli her i adnoddau dynol, ariannol ac adnoddau gwybodaeth.
Perfformiad	Mae Wreccsam yn cynorthwyo tua 750 o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain. Ym mis Rhagfyr roedd lleoedd preswyl i bobl 18+ oed oddeutu 500, ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae oedi trosglwyddo gofal o'r ysbyty wedi bod yn is na tharged Wreccsam o 3 am bob 1000 o boblogaeth yn gyson.
Modelau Gwasanaeth: Ailalluogi Ymateb Buan Gofal Canolraddol	Mae Wreccsam wrthi'n datblygu rhai gwasanaethau yn y meysydd hyn a bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gyflymu hyn. Bydd angen gwneud hyn ochr yn ochr â datblygu timau cymunedol a thimau gofal sylfaenol a thimau aml-ddisgyblaeth ar y cyd.
Gwerth am arian	Sicrhau'r ansawdd uchaf gan yr holl ddarparwyr trwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno systemau gwybodaeth i sicrhau ansawdd, yn cynnwys diogelwch ac effeithlonrwydd</li> <li>• Aildendro'r trefniadau prynu cyfredol e</li> <li>• Cydymffurfio â safonau isafswm AGGCC</li> <li>• Cynllunio'r gweithlu ar draws bob sector</li> </ul>
Y galw	Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl yn eu cartref yn parhau i gynyddu. Bydd hyn yn golygu bod rhaid sicrhau gwerth am arian trwy gynnal adolygiadau blynyddol pwy sy'n gymwys yn ogystal ag ehangu'r rhaglen ailalluogi.

## 5 MODEL GWASANAETH YN Y DYFODOL

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau yn dangos nad yw parhau i gyflenwi gwasanaethau gofal yn y cartref gan ddefnyddio'r trefniadau presennol yn ddichonadwy, yn economaidd nac o ran dyheadau. Felly cynigir y model isod, i'w rhoi ar waith dros gyfnod o dair blynedd.

Gwasanaethau mewnol i ddarparu:

- **Cymorth arbenigol** lle bo'r tasgau'n fwy na gofal personol sylfaenol
- **Gofal canolraddol** mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn galluogi pobl i dderbyn 'triniaeth' a chymorth yn y cartref yn hytrach nag yn yr ysbyty
- **Ailalluogi** i gynorthwyo pobl i adfer eu hannibyniaeth a lleihau eu dibyniaeth ar gymorth parhaus

Gwasanaethau allanol i fynd trwy broses aildendro er mwyn datblygu contractau lleol ar gyfradd â lefel uchafswm sefydlog.

Bydd pob cais newydd am gymorth yn y cartref yn cael eu hystyried gan y Gwasanaeth Ailalluogi i sicrhau bod pobl yn cael cymorth yn y gymuned, a'u hystyried ar gyfer Teleofal/Teleiechyd a gwneud y mwyaf o'u sgiliau byw o ddydd i ddydd cyn ystyried i ba raddau mae angen darparu unrhyw ofal parhaus.

Bydd cynlluniau cymorth i unigolion ag anghenion parhaus yn canolbwyntio ar y canlyniadau, gyda'r pwyslais ar yr unigolyn yn gweithio â'r darparydd (gyda chymorth fel bo angen) i gyflwyno rhaglen o gymorth sy'n helpu cyflawni'r canlyniadau hyn.

Bydd yn ofynnol cael proses asesu ddiwygiedig ar gyfer hyn a fydd yn lleihau'r dyblygu gwaith ac yn cynorthwyo gweithredu'n effeithlon ar draws yr holl wasanaethau.

## 6 BLAENORIAETHAU A CHYNLLUN GWEITHREDU

Bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn ganolog i'r holl broses, ac yn cael eu cefnogi i'w rheoli gymaint ag y bo modd.

Bu cydnabyddiaeth gynyddol o rôl gofalwyr di-dâl/anffurfiol sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i aelodau eu teulu a ffrindiau yn y gymuned. Golyga hyn bod angen i wasanaethau gofal yn y cartref fod yn hyblyg ac ymatebol i anghenion gofalwyr yn ogystal â bodloni anghenion defnyddiwr y gwasanaeth, er enghraifft, gwasanaethau gyda'r nos, ar y penwythnosau ac yn ystod y nos. Dylai'r amrediad o wasanaethau sy'n cefnogi gofalwyr barhau i gael ei adolygu.

Bydd angen diffinio a mireinio rôl gofalwyr gofal a staff gofal yn y cartref yr awdurdod.

Y prif egwyddor i'w datblygu ydy ailalluogi a chefnogi pobl i adfer eu hannibyniaeth a bydd hyn yn cael ei integreiddio yn 6 wythnos gyntaf y pecyn gofal. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei hamlygu yn nhwf y tîm ailalluogi trwy newid canolbwynt gwasanaethau mewnol yr awdurdod, a lle bo tystiolaeth o angen am becynnau gofal tymor hirach bydd hyn yn cael ei brynu gan y sector annibynnol.

Bydd y gwasanaeth ailalluogi yn gwirio bod y meini prawf yn cael eu defnyddio'n deg a bod gwasanaethau'n cael eu dyrannu'n effeithlon ac yn ymatebol i'r lefel isafswm sy'n ofynnol i gefnogi annibyniaeth. Bydd chwe wythnos gyntaf pob pecyn gofal yn gyfnod asesu, lle bydd agweddau ymarferol darparu'r gwasanaethau yn cael eu hasesu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o ac addasiadau i gynllunio gofal yn ystod y cyfnod ailalluogi.

Er mwyn cefnogi pobl yn eu cartref, osgoi eu derbyn i'r ysbyty a hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty yn fuan, bydd gwasanaethau gofal yn y cartref yn cael eu darparu ochr yn ochr â ac mewn modd integredig â gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r gwasanaethau integredig yn debygol o gynnwys gwasanaethau presennol a newydd, ailalluogi, gofal canolraddol, teleofal a theleiechyd, gwasanaethau ymateb buan/aciwt a gwasanaethau argyfwng i bobl â demensia a/neu eu gofalwyr a gwasanaethau gofal lleddfuo poen. Lle darperir gwasanaethau integredig gellid datblygu swyddi cymorth/iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Bydd y swyddi a'r swyddogaethau hyn yn cael eu hariannu ar y cyd, fesul achos.

Disgwylir i'r holl wasanaethau fodloni'r safonau isafswm fel a nodir ac a arolygiaeth gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a thrwy fanylebau tendrau. Ceir darlun cymysg yng nghyswllt hyn ar hyn o bryd. Yn y dyfodol bydd angen i wasanaethau fodloni safonau a nodir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn lleol. Bydd yr holl wasanaethau'n cael eu monitro i sicrhau bod hyn yn digwydd, trwy'r tîm Contractau a'r broses Sicrwydd Ansawdd mewnol a thrwy adolygiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Bydd y fanyleb ar gyfer darparu tystiolaeth o ansawdd y

gwasanaeth yn cael ei nodi mewn contractau a chytundebau lefel gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhaid i Wrecsam sicrhau cyflenwad ymatebol, dibynadwy a pharhaus o ofal yn y cartref, gan ddefnyddio cymysgedd o ddarparwyr lleol a chenedlaethol ar draws y sir. Er mwyn cefnogi datblygiad economaidd yn ogystal â'r cyflenwad darparwyr i'r dyfodol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithredu ag awdurdodau eraill gogledd Cymru, trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol Gofal yn y Cartref, i lunio rhestr darparwyr cymeradwy.

Bydd cynllun gweithlu'n cael ei ddatblygu mewn partneriaethau â'r Bwrdd Iechyd a darparwyr annibynnol i ymdrin â holl elfennau'r strategaeth hon.

## Atodiadau

### Atodiad 1

Yn ystod cyfnod yr amcanestyniad, rhagfynegir y bydd disgwyliad oes yn codi o 79.3 yn 2005/06 i 83.1 yn 2030/31.

<b>Amrediad oedran<sup>2</sup></b>	<b>2006</b>	<b>2011</b>	<b>2016</b>	<b>2021</b>	<b>2026</b>	<b>2031</b>
Plant	24,800	25,400	26,300	27,300	26,900	26,500
Oed gweithio	81,000	81,900	83,900	85,500	88,200	88,500
Oed pensiwn	25,100	27,700	29,000	30,200	31,300	34,400
<b>Cyfanswm</b>	<b>131,000</b>	<b>135,100</b>	<b>139,200</b>	<b>143,000</b>	<b>146,400</b>	<b>149,400</b>

### Atodiad 2

Mae gan Wrecsam gyfradd is o salwch cyfyngus tymor hir a gwaeledd iechyd cyffredinol yn ôl cyfrifiad 2001.

<b>Ardal</b>	<b>% Da</b>	<b>% Eithaf da</b>	<b>% Ddim yn dda</b>
Wrecsam	66.98	21.77	11.25
Cymru	65.06	22.49	12.45
Lloegr	68.76	22.21	9.03

<sup>2</sup> Y categorïau oedran ar hyn o bryd ydy – Plant 0-15 oed; Oed gweithio: 16 – 64 dynion /59 merched; ac oed pensiwn 65 dynion / 60 merched. Fodd bynnag, rhwng 2010 a 2010 bydd oedran derbyn pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i ferched i 65 oed i bawb. Rhwng 2024 a 2046 bydd oedran derbyn pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu fesul cam o 65 oed i 68 oed i ddynion a merched.